

Adroddiad Monitro Blynyddol

Yr Iaith Gymraeg

2017/18

national
museum
wales
amgueddfa
cymru

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Datblygiadau allweddol
3. Monitro
4. Cyngor polisi a chyfieithu
5. Y safonau iaith yng ngwaith yr Amgueddfa
6. Cyflenwi gwasanaethau
 - 6.1 Gohebiaeth ysgrifenedig
 - 6.2 Cysylltu dros y ffôn
 - 6.3 Cyfarfodydd
 - 6.4 Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir gan Amgueddfa Cymru
 - 6.4.1 Y rhaglen gyhoeddus
 - 6.4.2 Arddangosfeydd
 - 6.4.3 Cyrsiau addysg
 - 6.5 Deunydd print a gynhrychir gan Amgueddfa Cymru
 - 6.6 Y wefan a chyfryngau cymdeithasol
 - 6.7 Derbynfeydd
 - 6.8 Tandro
7. Llunio polisi
 - 7.1 Cyfrifoldeb
 - 7.2 Llunio, adolygu neu addasu polisi
 - 7.3 Dyfarnu grantiau
 - 7.4 Comisiynu neu wneud gwaith ymchwil
8. Gweithredu
 - 8.1 Darparu dogfennau dwyieithog
 - 8.2 Cwynion mewnol a gweithdrefnau disgyblu
 - 8.3 Meddalwedd TGCh
 - 8.4 Y Fewnrwyd a Stôr
 - 8.5 Gwersi Cymraeg ac ymwybyddiaeth iaith
 - 8.5.1 Hyfforddiant ffurfiol

8.5.2 Hyfforddiant anffurfiol

8.6 Recriwtio

9. Cadw cofnodion

9.1 Asesu sgiliau iaith staff

9.2 Cyrsiau hyfforddi

9.3 Datrys cwynion

10. Casgliad

Atodiad 1

1. Cyflwyniad

Ar 25 Gorffennaf 2016 cyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg hysbysiad cydymffurfio i Amgueddfa Cymru, sef rhestr o safonau y mae dyletswydd gyfreithiol arnom i gydymffurfio â nhw. Mae'r 168 o safonau yn cwmpasu pedwar maes, sef Cyflenwi gwasanaethau, Llundain polisi, Gweithredu a Chadw cofnodion. Daeth y rhan fwyaf o'r safonau i rym ar 25 Ionawr 2017, ac eithrio safon 48 a ddaeth i rym ar 24 Mai 2017 a safonau 22, 56, 124, 125, 146 a ddaeth i rym ar 25 Gorffennaf 2017.

Mae'r Hysbysiad Cydymffurfio a Pholisi Iaith Amgueddfa Cymru, sy'n seiliedig ar y safonau hyn, a'n cynlluniau iaith blaenorol, ar ein gwefan www.amgueddfa.cymru/ygymraeg.

Mae'r safonau hyn yn gosod disgwyliadau pendant ar yr Amgueddfa i gynnig gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd ac i hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o dreftadaeth a diwylliant Cymru, felly mae gan yr Amgueddfa ran allweddol i'w chwarae wrth feithrin ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru a'i defnyddio a'i dathlu wrth ein gwaith beunyddiol.

Rydym yn croesawu'r dyletswyddau cyfreithiol arnom tuag at yr iaith. Yn ogystal â'r dyletswyddau hynny, rydym yn falch iawn o'r gwaith ehangach a wnawn er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, ei hybu a'i hyrwyddo, yn ogystal â'n datblygiadau ym maes dehongli a dylunio dwyieithog. Mae'r Gymraeg wedi'i phrif-ffrydio yn ein Gweledigaeth gorfforaethol, 'ysbrydoli pobl, newid bywydau'. Ein pwrpas yw:

trwy ein hamgueddfeydd a'n casgliadau, ysbrydoli pobl i feithrin eu hunaniaeth a'u lles; i ddarganfod, mwynhau a dysgu'n ddwyieithog a deall lle Cymru yn y byd.

Mae gan Amgueddfa Cymru saith amgueddfa genedlaethol sydd ar agor i'r cyhoedd, sef Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Amgueddfa Lechi Cymru, Amgueddfa Wlân Cymru, Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru a Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru. Mae'r Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol hefyd yn rhan o'r teulu, ac ar agor i'r cyhoedd drwy drefniant.

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â'r gofynion a nodir yn y safonau. Mae'r adroddiad wedi'i baratoi gan Gydlynnydd y Gymraeg a'i gymeradwyo gan Grŵp Monitro'r Gymraeg, yr Uwch Dîm Rheoli, y Gweithgor Cyfun ac Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru, yn unol â'r drefn arferol ar gyfer dogfennau o'r fath. Cyhoeddir yr adroddiad ar ein gwefan, www.amgueddfa.cymru/ygymraeg.

2. Datblygiadau allweddol

Ymhlith uchafbwyntiau ein blwyddyn lawn gyntaf o weithredu yn unol â'r safonau iaith, mae'r canlynol:

- Cyhoeddi Polisi Iaith Amgueddfa Cymru ar ei newydd wedd, gan ddisodli'r Cynllun Iaith
- Penodi Cydlynnydd y Gymraeg ym mis Ebrill 2017 i gydlynu a goruchwyllo'r Polisi Iaith ar draws Amgueddfa Cymru
- Cwblhau rhaglen o sesiynau ymwybyddiaeth ar draws y corff am y safonau, eu hystyr a'u goblygiadau
- Sefydlu Grŵp Monitro'r Gymraeg i oruchwyllo cydymffurfiaeth â'r safonau ar draws Amgueddfa Cymru
- Penodi Cyfieithydd ym mis Mai 2017 i adolygu a datblygu ein Mewnrwyd ddwyieithog a Stôr, ein system newydd ar gyfer rheoli dogfennau mewnol
- Sefydlu Ar Lafar, gŵyl i ddysgwyr sy'n gyfle i ddysgu a dathlu'r iaith yng nghartref treftadaeth a diwylliant Cymru. Cafodd ei chynnal yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ac Amgueddfa Lechi Cymru, mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Gymraeg Genedlaethol a Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Sefydlu methodoleg er mwyn asesu gofynion iaith Gymraeg pob swydd a hysbysebhir gennym
- Cyfrannu at astudiaethau thematig y Comisiynydd Iaith ym mis Awst 2017 a mis Ionawr 2018 a chyflwyno holiadur arfer da ym mis Hydref 2017.

3. Monitro

Mae cydymffurfiaeth â'r safonau iaith a chyfrifoldeb tuag at y Gymraeg yn fater i bob aelod o staff Amgueddfa Cymru. Wrth baratoi at y safonau, cwblhawyd rhaglen eang o sesiynau briffio ar draws holl safleoedd ac adrannau Amgueddfa Cymru. Mae ein Polisi Iaith ar gael ar ein gwefan ac yn ein derbynfydd er mwyn sicrhau mynediad a defnydd eang ohono, a chaiff staff newydd eu cyflwyno i'r safonau a'r Gymraeg yn ein sesiynau cynefino chwarterol.

Mae'r Polisi Iaith yn nodi mewn rhagor o fanylder yr unigolion sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â safonau penodol (gweler Atodiad 1). Y Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros yr iaith Gymraeg yn y corff.

Rydym hefyd wedi sefydlu Grŵp Monitro'r Iaith Gymraeg sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â'r safonau iaith ac adolygu'r gwaith o weithredu ein Polisi Iaith ar draws y corff. Mae'r grŵp yn cwrdd yn chwarterol gan adrodd a chyflwyno argymhellion i Uwch Dîm Rheoli Amgueddfa Cymru, ac yn adrodd am gynnydd yn flynyddol trwy'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad. Mae'r grŵp yn datblygu ac yn monitro Cynllun Gweithredu tair blynedd fydd yn rhan o Gynllun Gweithredol Amgueddfa Cymru.

Y Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu sy'n cadeirio'r grŵp. Mae'r aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o wahanol amgueddfeydd a chyfadranau allweddol, a chedwir yr aelodaeth yn hyblyg er mwyn gallu ymateb i flaenoriaethau neu bolisïau newydd. Ymhlith aelodau 2017/18 roedd cynrychiolwyr o feysydd cyllid, curadurol, cyfryngau digidol, adnoddau dynol, technoleg gwybodaeth, addysg a gwasanaethau ymwelwyr.

4. Cyngor polisi a chyfieithu

Mae gan Amgueddfa Cymru dîm cyfieithu mewnol sy'n darparu gwasanaethau cyfieithu Cymraeg i Saesneg a Saesneg i Gymraeg, drafftio ochr yn ochr, gwasanaeth golygu, gwasanaeth gwirio gwaith cydweithwyr, gwasanaeth prawffddarllen, geirfa ar-lein, ac yn cynghori ar gynnwys a dylunio dwyieithog. Rydym hefyd yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu papur a chyfieithu ar y pryd gan gwmnïau preifat yn ôl y galw.

Mae Cydlynnydd y Gymraeg yn cynnig arweiniad a chyngor i bob aelod o staff yr Amgueddfa, ynghyd â sefydliadau, cwmnïau ac unigolion sy'n cynnig gwasanaethau ar ran yr Amgueddfa, ar faterion sy'n ymwneud a'r iaith Gymraeg, cyfieithu â chydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

5. Y safonau iaith yng ngwaith yr Amgueddfa

Mae'r safonau iaith wedi'u rhannu'n 5 dosbarth:

- Cyflenwi gwasanaethau
- Llunio polisi
- Gweithredu
- Cadw cofnodion
- Hybu*

*Ni chafodd safonau'r categori hwn eu gosod ar Amgueddfa Cymru. Fodd bynnag, mae hybu a hyrwyddo'r gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog a gynigiwn a dathlu defnydd a datblygiad yr iaith yn rhan annatod o'n gwaith.

At ddibenion yr adroddiad hwn, lle bo ein gwaith yn pontio anghenion gwahanol safonau, adroddir arnynt yn y man y tybiwn sydd fwyaf perthnasol.

6. Cyflenwi Gwasanaethau (safonau 1-83 a safonau atodol 149-154)

6.1 Gohebiaeth ysgrifenedig

Diweddarwyd ein templedi llythyron, ein gwefan a negeseuon awtomatig e-byst i gynnwys geiriad safonol ynghylch croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.

Ceir arwydd iaith Gwaith ym mhob derbynfa ac mae staff dwyieithog ar gael wrth bob derbynfa. Mae rheffynnau a bathodynau iaith Gwaith ac iaith Gwaith/Dysgwr ar gael i'r holl staff ac rydym yn annog eu defnydd lle bynnag posibl.

Hysbysir pob aelod o staff newydd am yr angen i sicrhau llofnod e-bost a neges peiriant ateb dwyieithog yn y sesiwn gynefino orfodol, yn rhan o gyflwyniad ehangach am y Gymraeg a'r safonau yn Amgueddfa Cymru.

Mae unrhyw eiriad safonol a ddefnyddir hefyd ar gael yn ein Geirfa ar-lein www.amgueddfa.cymru/geirfa sydd ar gael i'n staff a'r cyhoedd.

6.2 Cysylltu dros y ffôn

Gweinyddir switsfwrdd canolog Amgueddfa Cymru gan staff Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, felly mae staff sy'n ateb prif linell ffôn Amgueddfa Cymru yn ateb galwadau ffôn yn ddwyieithog (yn Gymraeg yn gyntaf ac yna'n Saesneg) ac mewn ffordd groesawgar gan hysbysu'r galwr bod modd cael gwasanaeth Cymraeg. Gellir gwirio dewis iaith aelodau staff y cyfeirir yr alwad atynt ar y Fewnrwyd hefyd.

Mae negeseuon electronig prif linell ffôn yr Amgueddfa yn cyfarch y galwr yn ddwyieithog (yn Gymraeg yn gyntaf ac yna'n Saesneg) ac yn hysbysu'r galwr y caiff adael neges yn Gymraeg. Pan fyddwn yn ffonio unrhyw unigolyn am y tro cyntaf, byddwn yn gofyn a yw'r unigolyn yn dymuno derbyn galwadau ffôn gennym yn Gymraeg. Os dyna ddymuniad yr unigolyn, cedwir cofnod o'i ddymuniad. Mae trefniadau adrannol ar waith ar draws Amgueddfa Cymru ar gyfer hyn.

Datblygiadau sydd ar y gweill:

Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen mewnol i ymchwilio i'r posibilrwydd o gaffael system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (CRM), o dderbyn nawdd ychwanegol. Bydd yn gweithredu yn gwbl ddwyieithog ac yn cynnwys y gallu i gofnodi dewis iaith ein hymwelwyr. Bydd Cydlynnydd y Gymraeg yn rhan o'r grŵp hwn.

6.3 Cyfarfodydd

Mae cyfieithu ar y pryd ar gael yn holl gyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyhoeddus. Diweddarwyd y canllawiau i Gadeiryddion a'r geiriad safonol a chyfeiriwyd at ganllawiau cyfieithu ar y pryd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a *Dogfen Cyngor: Drafftio Dwyieithog, Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd* y Comisiynydd iaith.

Lle bo cyfleoedd yn codi, rydym yn arbrofi â chyfieithu ar y pryd fel dull o gynyddu ein defnydd mewnol o'r Gymraeg. Er enghraifft, darperir cyfieithu ar y pryd yn holl gyfarfodydd Grŵp Monitro'r Iaith Gymraeg. Mae'n sicrhau y gellid cadw'r aelodaeth yn hyblyg ac y croesewir cyfraniadau gan bawb waeth beth fo'u sgiliau iaith.

Lle bo cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Gymraeg ar draws y corff a bod gofyn adrodd am y cynnwys i'r Uwch Dîm Rheoli, caiff y cofnodion eu llunio yn Gymraeg a chaiff trosolwg Saesneg ei ddarparu i'r Uwch Dîm Rheoli.

Datblygiadau sydd ar y gweill:

Bydd canllawiau ar drefnu a chynnal cyfarfodydd dwyieithog yn cael eu datblygu maes o law a'u rhoi ar y Fewnrwyd.

6.4 Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir gan Amgueddfa Cymru

6.4.1 Y rhaglen gyhoeddus

Mae'r meini prawf cymeradwyo digwyddiad yn cynnwys sicrhau ei fod yn cefnogi'r Gymraeg. Mae gofynion y Gymraeg hefyd yn cael eu cynnwys mewn contractau a thendrau lle bo hynny'n briodol.

Rydym yn cynhyrchu canllawiau ar gyfer swyddogion digwyddiadau'r corff, darparwyr allanol, a staff cysylltiol ynghylch y Gymraeg, yn ogystal â brawddegau safonol ac arfer da o ran hysbysebu digwyddiadau. Bydd y canllawiau yn cael eu dosbarthu i'r tîm Digwyddiadau ac yn cael eu cadw ar ein Mewnrwyd hefyd. Mae'r brawddegau stoc sydd eisoes mewn defnydd yn ein Geirfa ar-lein.

Datblygiadau sydd ar y gweill:

Rydym yn gweithio gyda Swyddog Cymraeg Byd Busnes Caerdydd a Bro Morgannwg i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymhlith darparwyr preifat sy'n cymryd rhan yn ein digwyddiadau cyhoeddus, er enghraifft stondinwyr Gŵyl Fwyd Sain Ffagan.

6.4.2 Arddangosfeydd

Mae cefnogi'r Gymraeg yn un o 7 maen prawf a ddefnyddiwn wrth gymeradwyo arddangosfeydd i'w cynnal yn Amgueddfa Cymru. Mae pob arddangosfa a gynhyrchir yn fewnol yn ddwyieithog.

Rhan greiddiol o broject ailddatblygu mawr Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yw arbrofi â dulliau dehongli dwyieithog, gan gynnwys drafftio testun Cymraeg a Saesneg ochr yn ochr yn hytrach na chyfieithu o'r naill iaith i'r llall a rhoi ystyriaeth drwyadl i ffynonellau gwreiddiol yn y ddwy iaith. Bydd y gwaith o werthuso'r project yn ei gyfanrwydd yn cynnwys asesu llwyddiant yr abroffion hyn a rhannu'r canfyddiadau am ddulliau dehongli â gweddill y corff a thu hwnt.

O bryd i'w gilydd, byddwn yn cynnal arddangosfeydd teithiol allanol. Er nad yw'n ofynnol i ni eu cyfieithu yn ôl y safonau, rydym wedi ymrwymo i addasu'r cynnwys i gynulleidfaoedd Cymraeg lle bynnag posibl. Wrth wneud hyn, rydym yn arbrofi â dulliau dehongli dwyieithog a byddwn yn gwerthuso eu heffaith yn ôl y galw. Bydd y

gwaith hwn yn cyfrannu at ein dealltwriaeth ac arferion ym maes dehongli a dylunio dwyieithog.

6.4.3 Cyrsiau addysg

Mae gennym raglen addysg ffurfiol a gynhelir gan ein hadran Addysg dan arweiniad y Pennaeth Addysg a Dehongli. Mae'r staff wedi derbyn y briff safonol ar y safonau ac yn gweithio'n agos gyda'r Cydlynnydd Iaith ar gynnwys y rhaglen. Rydym yn adolygu ein rhaglen gyhoeddus gyfredol ar hyn o bryd. Cynhyrchwyd taflen wybodaeth i staff achlysurol a staff partneriaeth sy'n eu cynorthwyo i ddeall a defnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith.

6.5 Deunydd print a gynhyrchir gan Amgueddfa Cymru

Mae dwyieithrwydd yn rhan annatod o frand a gwaith dylunio'r Amgueddfa ym mhob agwedd ar ei gwaith. Mae gennym dîm dylunio a chyhoeddi profiadol a chanllawiau brand cwbl ddwyieithog ar gyfer yr holl staff sy'n cael eu cadw ar ein Mewnwyd. Yn unol â chanllawiau brand yr Amgueddfa, mae'r Gymraeg yn cael ei gosod uwchben y Saesneg neu i'r chwith i'r Saesneg ac mae'r egwyddor hon wedi ennill ei phlwyf ers rhai blynyddoedd.

Mae arwyddion a hysbysiadau'r Amgueddfa (gan gynnwys rhai dros dro) yn ddwyieithog. Mae'r tîm Cyfieithu a'r Iaith Gymraeg ar gael i gynghori ynghylch sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a hysbysiadau yn gywir o ran ystyr a mynegiant ac mae'r eirfa ar-lein hefyd yn ffynhonnell ddefnyddiol i bawb. Mae'r tîm Cyfieithu a'r Iaith Gymraeg hefyd yn cynnig gwasanaeth gwirio ac adborth er mwyn cynorthwyo staff sydd am fagu hyder i ysgrifennu yn Gymraeg.

Datblygiadau sydd ar y gweill:

Mae swyddogion hyfforddiant Adnoddau Dynol a Chydlynnydd y Gymraeg yn cydweithio er mwyn datblygu hyfforddiant ar gyfer staff sydd yn siarad Cymraeg ond sydd am fagu hyder i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg ysgrifenedig. Bydd hyn yn cynyddu sgiliau iaith y gweithlu ac yn cynorthwyo i symud y pwyslais o gyfieithu i ysgrifennu cynnwys Cymraeg gwreiddiol. Bydd yn gyfuniad o elfennau 'gloywi iaith' a magu hyder ac yn seiliedig ar ein harddull tŷ mewnol.

Yn 2017, gweithiwyd gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ysgrifennu a dylunio adnoddau arbennig yn Sefydliad y Gweithwyr Oakdale (sydd yn Sain Ffagan). Mae cynnwys Cymraeg yr adnoddau hyn yn addas i unrhyw un ond maent yn ddelfrydol ar gyfer dysgwyr lefel Canolradd. Arbrofwyd â thechnegau dylunio gan gynnwys amrywio fformat a chynnwys blwch geirfa a chasglwyd adborth gan ddysgwyr yn ystod Gŵyl Ar Lafar. Mae'r technegau llwyddiannus ar waith ar broiectau eraill erbyn hyn.

6.6 Y wefan a chyfryngau cymdeithasol

Mae holl dudalennau'r wefan yn cynnwys dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg gyfatebol ar dudalennau Saesneg y wefan ac mae'r egwyddor o adeiladu ein gwefannau i greu tudalennau sy'n ddrych o'i gilydd wedi ennill ei phlwyf. Mae gennym dîm digidol profiadol sy'n sicrhau yr ymgorfforir egwyddorion y safonau i'n gwaith.

Cyhoeddir polisïau, strategaethau, adroddiadau a chynlluniau blynyddol, canllawiau, a datganiadau i'r wasg Amgueddfa Cymru ar ein gwefan, felly maent oll yn ddwyieithog.

Mae ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol yn ddwyieithog, gyda chydbwysedd rhwng cynnwys Cymraeg a Saesneg. Darperir hyfforddiant mewnol ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a blogio yn Gymraeg yn ôl y galw. Yn ogystal â'r cyfrifon corfforaethol dwyieithog sydd gennym, rydym hefyd yn cynnal cyfrif Twitter @laithAmgueddfa sy'n trydar am wahanol agweddau ar ein gwaith o ddylunio dwyieithog i gyfieithu i ddysgu ieithoedd, gan ddathlu llwyddiannau ein dysgwyr gyda'r hashnod #dysgwyrdisglair.

6.7 Derbynfeydd

Mae pob derbynfa gyhoeddus yn arddangos arwydd sy'n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i ymwelwyr ddefnyddio'r Gymraeg ac arwydd laith Gwaith. Mae staff sy'n gweithio wrth ddesgiau gwybodaeth/derbynfeydd sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg neu sy'n dysgu Cymraeg yn gwisgo rheffyn neu fathodyn sy'n cyfleu hynny.

Mae aelodau o staff allweddol gwasanaeth i ymwelwyr yn aelodau o Grŵp Monitro'r laith Gymraeg ac mae penaethiaid safle yr Amgueddfeydd unigol yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth.

6.8 Tandro

Mewn achosion lle mae pwnc y gwahoddiad i dendro yn cynnwys yr angen i'r gwaith gael ei gynhyrchu yn Gymraeg neu pan mae cynulleidfa yn disgwyl cael y gwaith yn Gymraeg, byddwn yn cyhoeddi tendr yn Gymraeg a Saesneg.

Mae'r swyddog tendrau wedi derbyn briff manwl ynghylch y Gymraeg a thendrau (yn ogystal â'r cyflwyniad cyffredinol i staff am y safonau). Mae'r swyddog hwn a Chydlynnydd y Gymraeg ar gael i gynghori swyddogion sy'n paratoi tendrau.

Pan fyddwn yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, byddwn yn nodi y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg.

7. Llundio polisi (safonau 84-93 a safonau atodol 155-160)

7.1 Cyfrifoldeb

Mae cyfrifoldeb am y Gymraeg a pholisi wedi ei osod ar lefel Gyfarwyddiaeth yr Amgueddfa. Mae unrhyw drafodaethau parthed effaith polisiau neu strategaethau corfforaethol ar yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o broses benderfyniadau'r Uwch Dîm Rheoli.

7.2 Llunio, adolygu neu addasu polisi

Wrth lunio polisi newydd, neu wrth adolygu neu addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rydym yn ystyried effeithiau'r penderfyniad sydd ynghlwm â'r polisi ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym yn ystyried sut y gallwn wneud penderfyniad polisi sy'n cael effaith positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac rydym yn sicrhau nad ydym yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

7.3 Dyfarnu grantiau

Nid yw'n arferol i'r Amgueddfa ddyfarnu grantiau, ond byddwn yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol os bydd achos yn codi.

7.4 Comisiynu neu wneud gwaith ymchwil

Wrth gomisiynu neu wneud gwaith ymchwil fydd yn sail i benderfyniadau polisi, byddwn yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol.

8. Gweithredu (safonau 94-140 a safonau atodol 161-166)

8.1 Darparu dogfennau dwyieithog

Mae'r Amgueddfa'n darparu'r dogfennau a restrir yn y safonau yn ddwyieithog i'r staff:

- contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau
- unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â chyflogaeth
- unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu anghenion neu ofynion hyfforddiant, amcanion perfformiad a/neu gynllun gyrfa
- ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi oriau gwaith hyblyg (cofnodir gwyliau ac absenoldebau o'r gwaith ar system electronig CIPHR – gweler tud. 12)
- ein holl bolisiau gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) y canlynol:
 - ymddygiad yn y gweithle
 - iechyd a lles yn y gweithle
 - cyflogau neu fuddion yn y gweithle
 - rheoli perfformiad
 - absenoldeb o'r gwaith
 - amodau gwaith
 - patrymau gwaith.

Datblygiadau sydd ar y gweill:

Mae'r adran Adnoddau Dynol yn gweithio gyda chwmni allanol Linguaskin er mwyn addasu ein meddalwedd adnoddau dynol electronig i fod ar gael yn ddwyieithog. Mae'r feddalwedd yn caniatáu i aelodau staff ddiweddarau eu manylion personol, gwyliau a salwch eu hunain yn electronig.

8.2 Cwynion mewnol a gweithdrefnau disgyblu

Mae proses gwynion a disgyblu'r Amgueddfa yn caniatáu i bob aelod o staff gyflwyno cwyn neu ymateb i unrhyw gŵyn neu honiad a wnaed amdano yn Gymraeg, cynnal cyfarfodydd neu achosion disgyblu, ac unrhyw ganlyniadau neu benderfyniadau sy'n deillio o hyn, yn Gymraeg.

8.3 Meddalwedd TGCh

Mae'r Amgueddfa'n darparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'r staff, ac yn darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael).

Mae Mewnwyd yr Amgueddfa ar gael yn Gymraeg a Saesneg a cheir dolen uniongyrchol ar bob dalen i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.

Mae'r tîm Cyfieithu yn treialu system cof cyfieithu a gweinyddu cyfieithiadau Cyfieithu Cymru gan Canolfan Bedwyr yn fewnol ar hyn o bryd, gyda'r nod o'i chyflwyno i weddill y corff yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd y system yn ein cynorthwyo i weinyddu a chwblhau gwaith cyfieithu yn fwy effeithlon, a dylai hwyluso'r broses archebu cyfieithiadau i'n cydweithwyr.

8.4 Y Fewnwyd a Stôr

Cafodd y Fewnwyd ei datblygu'n fewnol ac mae wedi'i chreu i fod yn gwbl ddwyieithog. Ym mis Mai 2017, penodwyd cyfieithydd i adolygu'r holl gynnwys ar ein Mewnwyd ddwyieithog. Diben yr adolygiad yw defnyddio data defnydd i fireinio'r cynnwys sydd yno a sicrhau fod yr holl gynnwys yn ddiweddar ac yn ddwyieithog. Mae hyn yn cwmpasu ffurflenni, dogfennau cynorthwyol cyllid, y llawlyfr staff, systemau archebu ystafelloedd electronig, templedi cynorthwyol i staff allu mewnbynnu data i galendrau yn ddwyieithog ac ati.

Law yn llaw â'r gwaith hwn, mae'r cyfieithydd hefyd yn gweithio ar ryngwyneb ein system storio dogfennau newydd, Stôr, er mwyn sicrhau y bydd modd ei defnyddio yn Gymraeg ac yr ystyrir y Gymraeg wrth ddylunio'r ffwythiannau.

Mae gennym system electronig ar gyfer anfon negeseuon i'r holl staff o'r enw Sgwrs. Mae'r system hon yn sicrhau fod y negeseuon Sgwrs a anfonir at yr holl staff yn ddwyieithog.

Datblygiadau sydd ar y gweill:

Rydym wedi dechrau gwaith ar ddatblygu'r adran gyfredol am y Gymraeg ar ein Mewnruyd. Bydd yn cynnwys rhagor o fanylion am y safonau a chanllawiau cydymffurfio, gwybodaeth am hyfforddiant ac arfer da a bydd yn cynnwys elfennau rhyngweithiol fel llif byw Twitter cyfrif @IaithAmgueddfa a hynt a helynt hyfforddiant anffurfiol y Gymraeg yn yr Amgueddfa.

8.5 Gwersi Cymraeg ac ymwybyddiaeth iaith

Rydym yn cynnig nifer o wahanol fathau o hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol am ddim ac o fewn oriau gwaith er mwyn cynorthwyo ein staff i ddysgu a defnyddio eu Cymraeg.

8.5.1 Hyfforddiant ffurfiol

Dyma nifer y staff a fynychodd hyfforddiant dysgu Cymraeg ffurfiol yn y gweithle yn 2017/18:

Lefel	Nifer	Canran
Mynediad	14	43.75%
Sylfaen	8	25%
Canolradd	10	31.25%
Cyfanswm	32	100%

Dyma ganran y staff a fynychodd hyfforddiant dysgu Cymraeg ffurfiol yn y gweithle yn 2017/18:

	Nifer	Canran
Cyfanswm nifer y staff	610	100%
Cyfanswm nifer y staff a fynychodd hyfforddiant dysgu Cymraeg ffurfiol	32	5.24%

Rydym wedi cofrestru gyda chynllun newydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Cymraeg Gwaith. Mae 7 aelod o staff wedi treialu Croeso Cymraeg Gwaith, sef cwrs ar-lein 10 awr i sy'n galluogi i'r rheini sy'n ei gwblhau i ddysgu cyfarchion ac ymadroddion Cymraeg syml sy'n addas i'r gweithle. Rydym hefyd yn annog cwmnïau trydydd parti rydym yn gweithio gyda nhw i gofrestru ar gyfer y cynllun.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar fanteisio i'r eithaf ar holl agweddau'r cynllun gwerthfawr hwn.

Mae pob aelod o staff newydd yn mynychu cwrs cynefino chwarterol sy'n cynnwys cyflwyniad am y Gymraeg a'r safonau.

8.5.2 Hyfforddiant anffurfiol

Cynhelir sesiynau Taith Iaith sef taith neu sgwrs am ddim i ddysgwyr ar ddydd lau olaf pob mis yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Staff sy'n siarad Cymraeg neu'n dysgu Cymraeg sy'n arwain sesiynau – sydd ar agor i staff a'r cyhoedd – ar eu gwaith neu faes neu bwnc perthnasol i'r Amgueddfa. Ymhlith sesiynau 2017/18 oedd menywod y casgliad celf; bywyd a gwaith Iorwerth C. Peate, sylfaenydd Sain Ffagan; a'r trysor diweddaraf i ddod i'r fei.

Cynhelir clybiau sgwrsio anffurfiol i ddysgwyr a staff rhugl e.e. mae Clwb Pontio Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn cwrdd bob pythefnos i sgwrsio dros banded neu ginio a chwarae Scrabble yn Gymraeg.

Mae gennym gynllun Cyfaill Cymraeg lle mae dysgwr a siaradwr rhugl yn gallu trefnu i gwrdd ar eu liwt eu hunain i sgwrsio dros banded neu dros y ffôn – rhydd i'r cyfeillion drefnu sut maent am gwrdd a phryd er cyfleustra.

Ar 22 Ebrill 2017, cynhaliwyd Ar Lafar, gŵyl i ddysgwyr Cymraeg mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Amgueddfa Lechi Cymru a'r Llyfrgell. Dewiswyd y lleoliadau hyn er mwyn rhoi mynediad i gynifer o ddysgwyr â phosibl ar draws y wlad. Cynhaliwyd ystod o wahanol weithgareddau ar bob safle (yn arbennig ar gyfer dysgwyr ar bob lefel a gallu), gan gynnwys teithiau tywys, cwisiau, gweithdai crefft, canu, trin a thrafod gwrthrychau, sesiynau blas ar y Gymraeg, a chyflwyniad theatrig. Cymerodd tua 630 o ymwelwyr ran ar y safleoedd a darparwyd adborth cadarnhaol gan y mynychwyr. Cynhelir gŵyl Ar Lafar eleni eto ar 21 Ebrill 2018.

8.6 Recriwtio

Caiff anghenion iaith pob swydd newydd eu hasesu trwy ddefnyddio pecyn asesu sy'n seiliedig ar erfyn diagnostig. Mae pob swydd yn cael ei hysbysebu yn Gymraeg a Saesneg a chroesewir ceisiadau yn Gymraeg neu Saesneg. Nid yw ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg. Darperir pob ffurflen gais, deunydd esboniadol, gwybodaeth am ein proses gyfweld a disgrifiadau swydd yn Gymraeg.

Mae lle i unigolion nodi lefel eu sgiliau iaith ar y ffurflen gais a hefyd a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad.

Yn unol â safon 148 (Cadw cofnodion), hysbysebwyd swyddi newydd a gwag fel a ganlyn:

Lefel iaith angenrheidiol	Nifer y swyddi
Cymraeg yn hanfodol	35
Cymraeg yn ddymunol	44

Angen dysgu Cymraeg o fewn cyfnod penodol	0
Dim angen sgiliau Cymraeg	3

9. Cadw cofnodion (safonau 141-148 a safonau atodol 167-168)

9.1 Asesu sgiliau iaith staff

Gall staff ddewis cofnodi a ydynt yn siarad Cymraeg (ac ieithoedd eraill) neu yn eu dysgu ar eu proffil ar y Fewnrwyd sy'n ddull hwylus iawn o gael cip cyflym ar sgiliau iaith cydweithwyr. Fodd bynnag at ddibenion cynllunio iaith Gymraeg y gweithlu, cyflwynwyd system o hunan-gofnodi lefel sgil Cymraeg ar ein system adnoddau dynol electronig, CIPHR. Mae'r lefelau a gofnodir yn gyson â Chwricwlwm Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion (a luniwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol), sydd hefyd yn cyd-fynd â'r Fframwaith Gyfeirio Ewropeaidd Gyffredin ar gyfer ieithoedd (sef CEFR, *Common European Framework of Reference for Languages*).

Cymwysterau CBAC/CDCG	Fframwaith CEFR
Mynediad	A1
Sylfaen	A2
Canolradd	B1
Uwch	B2
Hyfedredd	C1

Yn unol â safon 145, dyma nifer y staff a chanddynt sgiliau Cymraeg ar ddiwedd 2017/18:

Lefel iaith	Nifer y staff	Canran y staff
Mynediad A1	59	9.67%
Sylfaen A2	28	4.59%
Canolradd B1	37	6.07%
Uwch B2	46	7.54%
Hyfedredd C1	161	26.39%
Dim	279	45.74%
Cyfanswm	610	100.00%

9.2 Cyrsiau hyfforddi

Yn unol â safon 146, dyma nifer y staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennym yn Gymraeg yn 2017/18:

Cwrs	Nifer	Canran a fynychodd y fersiwn Gymraeg
Gofal cwsmer	20	100%
Rheoli perfformiad (mewnol)	12	24%

Rheoli absenoldeb (mewnol)	12	24%
Cymorth cyntaf	5	27.7%
Cyfanswm	49	13.6%

Cynllun peilot yw'r hyfforddiant gofal cwsmer a gynhaliwyd gyda staff blaen tŷ Sain Ffagan ym mis Gorffennaf 2017 a mis Ionawr 2018. Gweithiwyd mewn partneriaeth â chwmni WorldHost a Hyfforddiant GCS i ddatblygu'r hyfforddiant a achredwyd gan y City & Guilds yn Gymraeg a darparwyd tystysgrifau dwyieithog i'r staff. Byddwn yn cwblhau'r peilot gyda gweddill staff blaen tŷ Sain Ffagan ac yn casglu adborth gan y staff.

Darparwyd y cwrs cymorth cyntaf i staff Amgueddfa Lechi Cymru trwy ddarparwr allanol Medi-Tec. Roedd yn gwrs achrededig ac roedd adborth y staff a fynychodd yn gadarnhaol.

Mae pob aelod o staff newydd yn mynychu cwrs cynefino chwarterol sy'n cynnwys adran am y Gymraeg a'r safonau.

Rydym yn cynnig cwrs e-ddysgu iechyd a diogelwch yn Gymraeg ac yn Saesneg ac wrthi'n datblygu cwrs e-ddysgu diogelwch tân a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) fydd ar gael yn Gymraeg.

Nid ydym ar hyn o bryd yn cynnig cyrsiau recriwtio a chyfweld na gweithdrefnau cwyno a disgyblu i staff (yn Gymraeg nac yn Saesneg). Fodd bynnag, os byddwn yn cynnig y cyrsiau hyn mae gennym yr adnoddau mewnol i'w cynnal yn y ddwy iaith.

Dylid nodi hefyd y cynhaliwyd sesiynau hyfforddi gydag 14 o staff Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru ym mis Ebrill 2017, wrth baratoi ar gyfer ein gŵyl i ddysgwyr, Ar Lafar. Daeth aelod o staff y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i roi cyflwyniad am wahanol lefelau dysgwyr a sut orau i'w helpu.

Mae canfod darparwyr achrededig Cymraeg yn gallu bod yn her mewn rhai meysydd, ond dengys ein hymdrechion yma ei bod yn bosibl gydag amser ac ymroddiad. Byddwn yn parhau i gydweithio â chyrrff ar draws y gwahanol sectorau ble bynnag posibl i ganfod a chomisiynu hyfforddiant.

9.3 Datrys cwynion

Gall y cyhoedd gyflwyno cwyn, sylw neu adborth ar ein gwefan neu yn unrhyw un o'n safleoedd. Mae pob sylw gan y cyhoedd ynghylch y Gymraeg yn cael ei anfon at Gydlynnydd y Gymraeg sy'n cadw cofnod ohonynt ac yn ymateb yn ôl y galw, yn unol â'r amserlen gorfforaethol sef cydnabyddiaeth o leiaf o fewn 7 diwrnod gwaith ac ateb llawn o fewn 14 diwrnod gwaith. Mae copi o drefn gwyno'r Amgueddfa ar ein gwefan ac ym mhob derbynfa hefyd.

Cafwyd pum cwyn ynghylch cydymffurfiaeth â'r safonau iaith yn 2017/18. Daeth pedair cwyn i law gan y cyhoedd, ac un gan y Comisiynydd iaith.

Y Cyhoedd	Y Comisiynydd Iaith
4	1

O'r pedair cwyn a ddaeth i law gan y cyhoedd, roedd tair ohonynt ynghylch gwasanaethau a ddarperir gan drydydd parti.

Rydym yn cadw cofnod o'r camau yr ydym wedi eu cymryd i ddatrys cwynion mewn perthynas â'r Gymraeg. Yn eu plith mae darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a Chymraeg sylfaenol i staff trydydd parti, cryfhau gweithdrefnau cyfieithu rhwng Amgueddfa Cymru a thrydydd parti, adolygu'r rhaglen gyhoeddus a strwythurau staffio, cynhyrchu canllawiau i staff achlysurol ynghylch yr iaith a'i defnydd a gweithio gyda phartneriaid allanol i godi ymwybyddiaeth o fanteision Cymraeg i fyd busnes.

Mae'r gŵyn gan y Comisiynydd Iaith yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd.

10. Casgliad

Mae ein blwyddyn lawn gyntaf o dan gyfundrefn y safonau wedi bod yn gyfnod prysur o atgyfnerthu'r gweithdrefnau ac arferion a sefydlwyd yng nghyfnod y cynlluniau iaith, a pharhau i osod y seilwaith sydd yn ein galluogi i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau a ffyniant y Gymraeg yn Amgueddfa Cymru. Rydym yn falch iawn o'n llwyddiannau hyd yn hyn ac yn edrych ymlaen at weld ein cynlluniau'n dwyn ffrwyth dros y flwyddyn nesaf, yn ogystal â datblygu mentrau a chynlluniau newydd.

Atodiad 1

Safon	Cyfrifoldeb
Gohebiaeth ysgrifenedig (Safon 1-7)	Pennaeth Adran/Safle Cyfathrebu Corfforaethol
Cysylltu dros y ffon â phrif rif ffôn yr Amgueddfa a'r system ateb electronig (Safon 8-9, 11-17)	Switsfwrdd
Galwadau ffôn at adrannau ac at aelodau unigol o staff yr Amgueddfa (Safon 8-9, 11-17; 19-20)	Pennaeth Adran/Safle
Galwadau ffôn a wneir gan Amgueddfa Cymru (Safon 21)	Pennaeth Adran/Safle
Cyfarfodydd a gynhelir gan yr Amgueddfa (Safon 24, 24A, 25, 25A, 25D, 26-30)	Pennaeth Adran/Safle
Digwyddiadau cyhoeddus sy'n cael eu trefnu gan yr Amgueddfa (Safon 31-34)	Rheolwr Digwyddiadau
Cyhoeddi dogfennau a defnyddio ffurflenni (Safon 36, 44, 45, 46, 46A, 46B, 47)	Pennaeth Adran/Safle Cyfathrebu Corfforaethol
Y wefan a chyfryngau cymdeithasol (Safon 48, 51, 52, 54, 55)	Pennaeth Adran/Safle Cyfathrebu Corfforaethol
Peiriannau hunanwasanaeth (Safon 56)	Pennaeth Safle
Arwyddion a hysbysiadau (Safon 57-59; 65-66) Derbynfa (Safon 60, 63, 64)	Pennaeth Safle
Grantiau (Safon 67, 68, 68A, 70, 71)	Pennaeth Cyllid
Tendro (Safon 72, 73, 73A, 75, 76)	Pennaeth Cyllid
Codi ymwybyddiaeth o'n gwasanaethau Cymraeg (Safon 77, 78)	Pennaeth Marchnata
Hunaniaeth gorfforaethol (Safon 79)	Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu
Cyrsiau (Safon 80)	Pennaeth Addysg/ Rheolwr Digwyddiadau
System sain (Safon 83)	Pennaeth Safle
Llunio polisi (Safon 84, 85, 86, 87, 88, 89, 90, 91, 92, 93)	Cyfarwyddwyr / Pennaethiaid Adran/Safle
Defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle (Safon 94-99, 100 - 107)	Pennaeth Adnoddau Dynol
Cwynion a disgyblu (Safon 108, 108A, 110, 111, 112, 112A, 114, 115)	Pennaeth Safle Pennaeth Adnoddau Dynol

Defnyddio TGCh a'r Fewnrwyd (Safon 116, 117, 120, 121, 122, 123)	Pennaeth Technoleg Gwybodaeth / Pennaeth y Cyfryngau Digidol
Datblygu sgiliau Cymraeg (Safon 126, 127, 128, 129, 130, 131)	Pennaeth Adnoddau Dynol
Recriwtio (Safon 132, 132 A, 133, 133A, 133B, 135, 136)	Pennaeth Adnoddau Dynol
Arwyddion mewnol a chyhoeddiadau sain (Safon 137, 138, 140)	Pennaeth Safle
Cadw cofnodion (Safon 141-168)	Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu